

## Croeso i Gyfansoddwyr Ifanc Dyfed

Ein nod yw annog pobl ifanc i archwilio'r grefft o gyfansoddi, trwy roi'r cyfle iddynt weithio ochr yn ochr â cherddorion a chyfansoddwyr proffesiynol.



Mae'r cynllun yn agored i bobl ifanc sydd **dan 23 oed ar y 1 Medi 2018** ac sydd mewn addysg llawn amser yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion neu Sir Benfro neu sy'n byw yn un o'r tair sir.

Yn ystod 2017 - 18, byddwn yn gweithio gydag un o gyfansoddwyr amlycaf Cymru, sef **Lynne Plowman** [www.lynneplowman.co.uk](http://www.lynneplowman.co.uk) a byddwn yn gwahodd pobl ifanc i gyfansoddi darn ar gyfer ein Henseble Preswyl, sef **Galos Piano Trio** [www.galos-trio.com](http://www.galos-trio.com)

---

## Cyfranogi

Medrwn gynnig y cymorth canlynol i unrhyw un sydd â diddordeb mewn cyfranogi yn y cynllun:

- **Tri chyflwyniad** gan Lynne Plowman a'r Galos Piano Trio. Mae'r rhain yn cynnig cyflwyniad i'r ensemble ynghyd â chynghor ar sut i fynd ati i ysgrifennu ar gyfer yr offerynnau. Maent yn agored i **unrhyw un sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y cynllun** ar y dyddiadau canlynol:
  - Dydd Mercher 20 Medi 2017 11.30 – 13.00 Ysgol Tasker Milward, Hwlfordd
  - Dydd Iau 21 Medi 2017 10.30 – 12.00 Ysgol Gyfun Aberaeron
  - Dydd Gwener 22 Medi 2017 10.30 – 12.00 Ysgol Maes y Gwendraeth, Cefneithin
- Yn ystod Ionawr – Chwefror 2018, bydd **tiwtorialau unigol** gyda Lynne ar gael ar gyfer **unrhyw un** sydd â diddordeb mewn cyflwyno cyfansoddiad. Os am wneud cais am diwtorial, yna cwblhewch a dychwelwch y ffurflen isod erbyn **dydd Mercher 13 Rhagfyr 2017**.

## Cyflwyno Cyfansoddiad

Rydym yn gwahodd pobl ifanc i gyfansoddi ar gyfer Galos Piano Trio. Dylid sgorio'r darn ar gyfer feiolin, soddgrwth a piano.

- Ni ddylai'r cyfansoddiadau fod dros **10 munud** ar eu hyd.
- Caiff ymgeiswyr ysgrifennu sgoriau â llaw neu eu hargraffu o raglen gyfrifiadurol addas.
- Mae croeso i weithiau sydd wedi'u cyfansoddi ar gyfer TGAU, Safon Uwch neu arholiadau eraill. Rhaid mai gwaith yr ymgeisydd yw pob cyfansoddiad.
- Gellir e-bostio sgoriau electronig at ein Swyddog Gweinyddol, Cathy Morris ([morris.c@ntlbusiness.com](mailto:morris.c@ntlbusiness.com)). Bydd angen cyflwyno **sgôr gorffenedig ynghyd â rhannau unigol i bob un o'r chwaraewyr**.
- Gellir postio sgoriau wedi'u hysgrifennu â llaw at Cathy Morris, Llys Melus, 75 Roath Court Road, Caerdydd, CF24 3SF. Bydd gofyn un copi o'r sgôr cyfan ynghyd ag un copi o bob rhan unigol i'r chwaraewyr. Neu, gellir postio PDFs o sgoriau a ysgrifennir â llaw i gyfeiriad e-bost Cathy Morris uchod.
- Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau yw **dydd Mercher 14 Chwefror 2018**.

## Sioeau Arddangos i Ysgolion a Chyngerdd

Bydd Galos Piano Trio a Lynne Plowman yn arwain pedair sioe arddangos i ysgolion o **ddydd Mawrth 20 tan ddydd Gwener 23 Mawrth 2018** pryd rydym yn anelu at gael **yr holl gyfansoddiadau a gyflwynir** wedi'u perfformio gan yr Ensemble.

Cyfle heb ei ail fydd hwn i glywed eich gwaith yn cael ei berfformio'n fyw gan ensemble proffesiynol a thrafod unrhyw welliannau y gallech eu gwneud â Lynne ac aelodau o'r trio.

Yn ystod yr wythnos, bydd Lynne a Galos Piano Trio yn dewis rhwng 10 a 12 o weithiau i'w perfformio mewn **cyngerdd cyhoeddus** yn Rhosygilwen ger Cilgerran ar yr penwythnos **24 – 25 Mawrth**. Os bydd eich cyfansoddiad yn cael ei ddewis, yna byddwn yn gofyn i chi fynychu gweithdy drwy'r dydd ar **ddydd Sadwrn 24 Ebrill** yn Rhosygilwen pryd y bydd yr ensemble yn ymarfer eich darn a thrafod ffyrdd o fireinio eu dehongliad a'u perfformiad ohono â chi.

Byddwn yn anelu at gofnodi sioeau arddangos yr ysgolion gan ddefnyddio ein cyfarpar ac yn comisiynu recordiad proffesiynol o'r cyngerdd.

---

## Cwestiynau Cyffredin

### **Ni fydd fy ysgol i'n mynychu'r cyflwyniadau ym mis Medi. A fedraf i fynychu ar ben fy hun?**

Mae croeso i ti, ar yr amod dy fod wedi derbyn caniatâd gan yr ysgol. Mae croeso hefyd i bobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref.

### **A oes hawl gen i gyflwyno cyfansoddiad os nad ydw i wedi mynychu'r cyflwyniadau na'r gweithdai ac nad wyf wedi derbyn tiwtorial?**

Oes

### **Rydw i ffwrdd yn y brifysgol ar hyn o bryd, ond mae fy rhieni'n dal i fyw yn yr ardal. A oes hawl gen i gyflwyno cyfansoddiad?**

Oes, ar yr amod dy fod ti dan 23 oed ar y 1 Fedi 2018.

### **Fe fyddai i ffwrdd yr wythnos bydd y sioeau arddangos a'r cyngerdd yn cael eu cynnal. A fydd fy nghyfansoddiad i'n dal i gael ei ystyried ar gyfer ei berfformio?**

Mae'n drueni mawr y byddi di'n colli'r digwyddiadau yma, ond fe fyddwn ni'n dal i gyflwyno dy gyfansoddiad di i'r ymgynghorydd cerdd annibynnol ac, os caiff ei ddewis, rydym yn gobeithio recordio'r perfformiad.

### **Hoffwn ysgrifennu sgôr sy'n cynnwys rhan ar gyfer yr offeryn rwy'n ei chwarae. A oes hawl gen i wneud hyn?**

Rydym ni wedi caniatáu hyn yn y gorffennol, ond oherwydd ein bod wedi cyflwyno sioeau arddangos yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae hyn wedi creu problemau logistaidd. O ganlyniad, rydym ni'n gofyn i gystadleuwyr i ysgrifennu ar gyfer aelodau o'r ensemble yn unig.

### **A oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â chyfranogi?**

Caiff yr holl gostau, yn cynnwys cyflwyniadau, y llawlyfr, gweithdai a thiworialau eu talu gan Gerddorion Ifanc Dyfed.

---

Os ydych chi angen unrhyw wybodaeth bellach, yna peidiwch ag oedi cysylltu â'r Weinyddwraig Cathy Morris.

Ffôn: 029 2019 0176 e-bost: [morris.c@ntlbusiness.com](mailto:morris.c@ntlbusiness.com)